



Lymffoedema Cymru
Lymphoedema Wales

Gwella Lymffoedema drwy Ficrolawfeddygaeth Uwch Anastamosis Gwythiennol Lymffatig (LVA)

Beth yw LVA?

Techneg microlawfeddygol uwch yw LVA ble y cysylltir pibell lymffatig wedi ei niweidio ag wythien fach. Mae hyn yn caniatáu i'r hylif lymff ddraenio'n uniongyrchol i'r llif gwaed gan leihau chwydd yn y meinweoedd. Mae'r feddygfa wedi adrodd:-

- Gwelliant mewn chwydd felly nid oes angen gwisgo dillad am gymaint o amser neu o gwbl
- Gostyngiad mewn symptomau fel poen a thrymder
- Llai o gyfnodau o Lid yr Isgroen

Pe baech yn cwrdd â'r meini prawf a restrir isod, fe'ch gwahoddir i glinig sgrinio lle cynhelir sgan i nodi a yw'ch lymffatig yn addas ar gyfer llawdriniaeth. Bydd y llawdriniaeth yn achos dydd a fydd yn para tair i bedair awr. Rydych chi fel arfer yn mynychu ganol y bore ac rydych adref yn gynnar gyda'r nos.

Beth yw'r meini prawf i'w hystyried ar gyfer sgrinio LVA?

- Diagnosis o lymffoedema yn eich breichiau neu'ch coesau
- Chwyddo ysgafn i gymhedrol gydag uchafswm o 20% o'i gymharu â'r ochr arall
- Rhaid i'ch croen fod yn normal – dim crychiadau na phlygiadau o'r lymffoedema
- Rhaid i'r meinweoedd fod yn feddal (dim cadernid), a heb glwyfau na doluriau
- BMI (Mynegai Mâs y Corff) yn gyfartal i neu'n llai na 30kg/m²
- Dim clefyd canser gweithredol
- Rhaid i chi allu hunanreoli'ch lymffoedema gan gynnwys gwisgo'ch dilledyn cywasgu, gofal croen, ymarfer corff a hunan-dylino
- Hanes meddygol yn y gorffennol sy'n cynnwys o leiaf dau episod o Lid yr Isgroen a oedd angen gwrthfotigau
- Dim heintiau ffwngaidd gweithredol

Rhagofal: Os oes gennych alergedd i iodid, rhwch wybod i'ch therapydd gan y bydd angen trafod eich achos gyda'r ymgynghorydd.

Ni fyddwch yn gymwys i gael sgrinio LVA os bydd y canlynol yn berthnasol i chi:

- Bod â heintiau ffwngaidd heb eu trin
- Bod â BMI dros 31kg/m²
- Cael problemau arenau neu glefyd yr afu
- Cael gorbwysedd gwythiennol h.y. gwythiennau faricos, gwythiennau pry cop, cochni'r traed wrth sefyll i fyny
- Cael gwaed yn eich wrin
- Yn feichiog
- Yn ysmygwr
- Wedi cael adwaith sioc anaffylaxis blaenorol i lifyn

Dilynwch y ddolen neu'r cod QR i weld fideo byr am y sgan a'r feddygfa LVA:

www.medic.video/w-lymph-lva



Sut ydw i'n gwybod a ydw i'n addas ar gyfer sgrinio LVA?

Bydd eich therapydd lymffoedema yn nodi a ydych chi'n addas i gael eich sgrinio ar gyfer llawdriniaeth LVA. Os ydych chi'n cwrrd â'r meini prawf yna fe'ch gwahoddir i fynychu asesiad gyda'r Therapyddion Lymffoedema Cenedlaethol. Efallai y bydd eich nyrs gofal y fron, nyrs gynaeolegol neu nyrs wroleg hefyd yn gallu eich atgyfeirio.

Beth sy'n digwydd yn y sgrinio LVA?

Dyma lle byddwn yn sganio'ch lymffatig arwynebol trwy chwistrellu llifyn iodid i'r croen rhwng gofod gwe eich bysedd neu flaenau eich traed yn y ddwy fraich neu'r ddwy goes. Yna bydd eich aelodau yn cael eu sganio gan ddefnyddio dyfais law sy'n dangos ar unwaith sut mae'ch pibellau lymff yn gweithio. Dangosir y ddelwedd ar sgrin cyfrifiadur wrth i'r llifyn symud i fyny'ch aelodau. Os ydym yn nodi sianeli lymffatig addas sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n gorffen yn sydyn mewn maes o chwydd, yna efallai eich bod yn ymgeisydd da ar gyfer llawdriniaeth. Mae'n bwysig bod llif y lymff yn cyrraedd rhai pwyntiau yn eich aelod ar amseroedd penodol. Bydd hyn yn cael ei egluro ichi ymhellach yn ystod y broses sganio.

A yw'r pigiadau'n brifo?

Fel pob pigiad mae rhywfaint o anghysur pan fydd y nodwydd yn mynd i mewn i'r croen gyntaf a mewnosodir y llifyn. Dim ond am ychydig funudau y mae'r anghysur yn para ac ni ddylai achosi unrhyw boen hirhoedlog. Efallai y byddwch yn profi rhywfaint o dynerwch o amgylch y pigiad, cleisio safle, staenio gwyrdd dros dro ar y croen neu erythema byr (cochni) ar safle'r pigiad.

Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi fod yn bresennol ar gyfer y sgrinio LVA?

Byddwch yn cael eich asesu a gofynnir rhai cwestiynau i chi am eich iechyd a Lymffoedema. Mae'r pigiad a'r sganio fel arfer yn cymryd oddeutu awr i gyd. Gofynnir i chi wneud rhai ymarferion yn ystod y sesiwn i gynorthwyo llif y lymff.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgrinio LVA?

Bydd eich delweddau wedi'u sganio yn cael eu cadw a byddant yn cael eu trafod gyda'r llawfeddyg ymgynghorol mewn tîm amlddisgyblaethol. Anfonir copi o'r adroddiad atoch chi, eich therapydd a'ch meddyg teulu gyda chanlyniadau eich addasrwydd ar gyfer llawdriniaeth.

Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn addas ar gyfer llawdriniaeth?

Bydd eich therapydd lymffoedema yn parhau i'ch cefnogi a'ch helpu i reoli'ch lymffoedema. Efallai y bydd y sgan yn nodi sut y gellid gwella eich rheolaeth Lymffoedema ymhellach a bydd hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Pa mor hir y bydd yn rhaid imi aros am sganio LVA ac yna llawdriniaeth?

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad gan eich therapydd lymffoedema cewch eich asesu ar gyfer sganio o fewn 8 wythnos. Os ydych chi'n addas ar gyfer llawdriniaeth yna bydd hynny'n digwydd cyn pen 18 wythnos ar ôl eich sgan. Felly, dylai'r broses gyfan mewn amgylchiadau arferol gymryd uchafswm o 26 wythnos.

Os caf y llawdriniaeth LVA pa mor fuan y gwelaf unrhyw fudd?

Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn sylwi ar welliant o fewn y 18 mis cyntaf, er bod rhai cleifion yn dweud bod buddiannau wedi digwydd hyd at dair blynedd ar ôl llawdriniaeth.

A fydd fy lymffoedema yn gwaethgu os byddaf yn cael llawdriniaeth LVA?

Na, mae hynny'n annhebygol iawn. Yn yr un modd â phob llawdriniaeth ac anesthetig lleol, bydd rhai risgiau y bydd yr ymgynghorydd yn eu trafod gyda chi cyn y llawdriniaeth er mwyn caniatáu ichi wneud dewis gwybodus.

Os hoffech drafod LVA yn fwy manwl, cysylltwch â'ch Therapydd Lymffoedema neu'r Arbenigwr Lymffoedema Cenedlaethol ar 01639 862767. Mae gwasanaeth ffôn ateb ar gael ichi adael neges, fel y gallwn ddod yn ôl atoch os na allwch fynd drwodd yn y lle cyntaf.